Adroddiad Blynyddol y Tribiwnlys Eiddo Preswyl 2014 – 2015

Tachwedd 2015

Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom Ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	7
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	16
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	17
Adran 5	Gwariant	18

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26708 ISBN digidol 978 1 4734 4957 2

Rhagair

Croeso i fy ail Adroddiad Blynyddol i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Bu'r flwyddyn yn un brysur wrth i'r Tribiwnlys gyflwyno dau ddarn newydd o ddeddfwriaeth sy'n rhoi ystod eang o awdurdodaethau i'r Tribiwnlys.

Yn gyntaf, daeth Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 i rym ar 1 Hydref 2014. Mae wedi cydgrynhoi deddfwriaeth flaenorol gyda hawliau ac ymrwymiadau newydd ar gyfer Perchnogion Parciau a Pherchnogion Cartrefi Symudol.

Yn ail, cafodd Deddf Tai (Cymru) 2014 y Cydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2014. Er nad yw mewn grym eto, mae'r Ddeddf hon yn sefydlu cynllun trwyddedu gorfodol chwyldroadol ar gyfer Landlordiaid ac Asiantaethau Rheoli ac mae'n gam ar y ffordd tuag at gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i godi safonau yn y Sector Rhentu Preifat.

Yn y Tribiwnlys buom yn croesawu atom Gadeiryddion Cyfreithiol ac Aelodau Proffesiynol newydd sydd, ar ôl hyfforddiant sefydlu ac arsylwi, yn awr wrthi'n delio â gwaith achos.

Roedd ein Cynhadledd Flynyddol ar gyfer aelodau a gynhaliwyd fis Tachwedd yn pwysleisio'r amrywiaeth cynyddol yn y gyfraith sy'n effeithio ar y Tribiwnlys yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig a chafodd groeso cynnes iawn gan y nifer fawr o gynrychiolwyr oedd yn bresennol.

Yn gynharach yn y flwyddyn cefais bleser mawr wrth roi anerchiad byr ar dueddiadau yn llwyth gwaith y Tribiwnlys yng ngweithdy'r Gwasanaethau Cynghori Lesddaliadau yng Nghaerdydd.

Er bod y ffigurau yn yr adroddiad hwn yn dangos gostyngiad yn nifer yr achosion a ddaeth gerbron y Tribiwnlys nid yw hynny'n adlewyrchiad o gymhlethdod yr achosion na'r ymrwymiad sydd ei angen ar staff y swyddfa a'r aelodau i ddelio â hwy.

Fel arfer rwyf wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau'r Tribiwnlys i sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru.

Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon, ein:

- Cefndir
- Golwg gyffredinol ar y gweithdrefnau
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Cysylltu â'r Tribiwnlys

Cefndir

Mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (TEP Cymru) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i ddatrys anghydfodau ynghylch eiddo rhent preifat ac eiddo lesddaliadol.

Sefydlwyd TEP Cymru o dan Ddeddf Tai 2004 fel y corff ymbarél sy'n gyfrifol am Bwyllgorau Asesu Rhenti, Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlysoedd Eiddo Preswyl.

Golwg gyffredinol ar y gweithdrefnau

Nod cyffredinol TEP Cymru yw:

- darparu gwasanaeth cwsmeriaid cost-effeithiol sy'n perfformio'n dda i ddefnyddwyr y tribiwnlys a'i aelodau
- sicrhau bod pob agwedd ar waith y tribiwnlys yn cael ei weinyddu mewn modd sy'n sicrhau dyfarniad teg, annibynnol ac amserol, a
- gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol sy'n berthnasol yng Nghymru.

Mae'r tribiwnlys wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyfatebol o'r un safon uchel i siaradwyr Cymraeg a Saesneg, fel ei gilydd, sy'n defnyddio'r tribiwnlys.

Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r tribiwnlys wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Pwyllgorau Asesu Rhenti (Cymru a Lloegr) 1971
- Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004, a
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012.

Codir ffi am wneud cais a/neu ffi gwrandawiad mewn perthynas â rhai mathau o geisiadau y mae TEP Cymru yn ymdrin â nhw.

Mewn gwrandawiad tribiwnlys, mae panel y tribiwnlys yn cynnwys cadeirydd sy'n meddu ar gymwysterau cyfreithiol, un aelod proffesiynol neu mewn rhai achosion, dau aelod proffesiynol, yn dibynnu ar ba mor gymhleth yw'r achos, ac mewn rhai achosion bydd un aelod lleyg hefyd. Fel arfer caiff gwrandawiadau tribiwnlys eu cynnal yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at yr eiddo dan sylw.

Mae trefniadau'r gwrandawiad yn ystyried gofynion y sawl sy'n mynychu, fel mynediad i gadeiriau olwyn, cymhorthion clyw, cyfieithwyr ac ati.

Mae'r tribiwnlys yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar y wefan ar gyfer TEP Cymru. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgorau Asesu Rhenti, Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlysoedd Eiddo Preswyl am resymau cyfyngedig i'r Uwch Dribiwnlys. Rhaid cael caniatâd TEP Cymru yn gyntaf cyn apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniadau a gaiff eu gwneud gan Dribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlysoedd Eiddo Preswyl.

Rhoddir canllawiau a gwybodaeth lawn am y tribiwnlys a'i weithdrefnau ar wefan TEP Cymru. Fel arall, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech gael cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol.

Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi cadeiryddion, a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi aelodau proffesiynol ac aelodau lleyg. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gyfrifol am enwebu llywydd ac is-lywydd y tribiwnlys o blith y panel o gadeiryddion. Caiff penodiadau eu gwneud ar ôl i swyddi gwag gael eu hysbysebu ac ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gyfweld â chadeiryddion ac ar ôl i Lywodraeth Cymru gyfweld ag aelodau eraill.

Llywydd ac Is-lywydd: Dyma arweinyddion barnwrol y tribiwnlys.

Cadeiryddion: Cyfreithwyr sy'n gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawiadau ac am gynghori'r tribiwnlys ar faterion cyfreithiol. Y cadeirydd fydd yn ysgrifennu penderfyniadau ac yn pennu cyfarwyddiadau lle bo angen.

Aelodau Proffesiynol: Syrfewyr a phriswyr sy'n dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob gwrandawiad.

Aelodau Lleyg: Maent yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob gwrandawiad.

Ysgrifenyddiaeth: Yr ysgrifenyddiaeth sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd. Mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r tribiwnlys. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r cadeirydd ar yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod camau cychwynnol cyn y gwrandewir achosion, ac yn trosglwyddo penderfyniadau a chyfarwyddiadau'r cadeirydd i'r partïon yn ysgrifenedig. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr tribiwnlysoedd ac mae'n bresennol mewn rhai gwrandawiadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Penodwyd un cadeirydd cyfreithiol newydd ar gyfer y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn ystod Ionawr 2014.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd hyfforddiant sefydlu ar gyfer yr aelod newydd yn ystod mis Mawrth 2014 ac wedi hynny cynhaliwyd rhaglen arsylwi gwrandawiadau. Cynhaliwyd cynhadledd hyfforddiant i'r holl aelodau yn ystod mis Tachwedd 2014.

Cychwynnwyd ar raglen o arfarnu perfformiad ar gyfer aelodau'r tribiwnlys yn ystod mis Hydref 2014.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

I gysylltu ag Ysgrifennydd y Tribiwnlys, dyma'r manylion:

Cyfeiriad y Tribiwnlys: Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru
Y Llawr Cyntaf
Yr Adain Orllewinol
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Llinell Gymorth: 029 2092 2777

Ffacs: 029 2023 6146

E-bost: rpt@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru http://rpt.gov.wales/

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon, ein:

- Niferoedd ac ystadegau
- Adolygiadau ac apeliadau ymlaen
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn y Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth.

Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu coladu:

- nifer y ceisiadau a gafwyd ac a gofrestrwyd
- y math o geisiadau a gafwyd ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau a gwblhawyd
- canlyniad y ceisiadau.

2.1 Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd 2014-2015

Yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015 cafodd y tribiwnlys gyfanswm o 106 o geisiadau. Cariodd y Tribiwnlys 66 o geisiadau drosodd o 2013-2014 hefyd. Cofrestrodd y tribiwnlys 131 o geisiadau yn ystod 2014-2015 ac o'r rhain cafwyd 25 ohonynt yn ystod 2013-2014 a'u cofrestru yn ystod 2014-2015. O'r rheini roedd 18 yn geisiadau i'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau (TPL), 2 yn geisiadau i'r Pwyllgor Asesu Rhenti (PAR) a 5 yn geisiadau i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl (TEP). Mae'r siart isod yn dangos nifer y ceisiadau a gafwyd ac a gofrestrwyd ym mhob awdurdodaeth y tribiwnlys gan gynnwys y rhai a gafodd eu cario drosodd a'u cofrestru yn 2014-2015.

Tabl 2.1 Nifer y Ceisiadau a Gafwyd ac a Gofrestrwyd 2014-2015



2.2 Nifer y Ceisiadau a Gofrestrwyd yn ôl Blwyddyn a'r Math o Gais

Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (TPL) – maent yn delio â cheisiadau i apelio yn erbyn anghydfodau'n ymwneud â lesddaliadau, taliadau gwasanaeth lesddaliadol, rhyddfreinio lesddaliadau ac ymestyn prydlesi ar gyfer tai a fflatiau, a cheisiadau cymdeithasau tenantiaid i gael eu cydnabod. Mae'r tabl isod yn cyflwyno data ar bob cais a gafwyd o ran awdurdodaeth y tribiwnlysoedd.

Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (TPL)

(Sylwer: dyma'r achosion gwirioneddol a gofrestrwyd yn ystod 2014-2015 (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol ac a gofrestrwyd yn y flwyddyn gyfredol)

Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math	2014-2015
Anghydfodau ynghylch Lesddaliadau	
Atodlen 11, Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 – Pennu'r Atebolrwydd i Dalu neu Amrywio Taliadau Gweinyddu	2
Adran 168 (4), Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, Torri Cyfamod neu Amodau Prydles	6
Pennod 1, Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 – Yr Hawl i Reoli	4
Adran 20 C, Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985 – Adennill Costau	1
Rhan IV, Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985 – Amrywio Prydles(au)	1
Adran 24, Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985 – Penodi Rheolwr	1
Taliad Gwasanaeth Lesddaliad	
Adran 27 A, Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985 – Taliadau Gwasanaeth	23
Adran 20 ZA, Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985 – Esgusodi rhag pob un/unrhyw un o Ofynion yr Ymgynghoriad	3
Rhyddfreinio Lesddaliadau	
Adran 21(1)(ba), Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 – Gorchymyn Costau Rhesymol	0
Adran 21 (1)(a) Deddf Diwygio Cyraith Lesddaliad 1967 – Pennu'r Pris Taladwy	4
Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Adnewyddu Lesddaliadau	16
Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Landlord Coll	5
Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Costau Rhesymol	2
Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Rhyddfreinio ar y Cyd	4
Cymdeithasau Tenantiaid	
Adran 29, Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985 – Cydnabod Cymdeithasau Tenantiaid	0

Arall	
Adran 21, Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 – Rhent Tir a Thelerau	0
Ildio ffioedd	0
Cyfanswm	72

Pwyllgorau Asesu Rhenti (PARh) – maent yn delio â cheisiadau i apelio yn erbyn rhenti, boed yn rhenti teg, yn atgyfeiriadau a wnaed gan y swyddog rhent neu'n rhenti'r farchnad – o dan denantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliol sicr. Mae'r tabl isod yn cyflwyno data ar bob apêl a gafwyd o ran awdurdodaeth y tribiwnlysoedd.

Pwyllgorau Asesu Rhenti (PARh)

Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math	2014-2015
Adran 13 (4) Deddf Tai 1988 – Hysbysiad yn Cynnig Rhent Newydd	6
Adran 22 (1) Deddf Tai 1988 – Pennu Tenantiaeth Fyrddaliol sy'n Sicr o ran Rhent	1
Adran 6 (3), Deddf Tai 1988 – Hysbysiad yn Cynnig Telerau Gwahanol	0
Rhenti Teg – Atgyfeiriadau gan y Swyddog Rhent	36
Cyfanswm	43

Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl (TEP) – maent yn delio â cheisiadau i apelio, gorchmynion rheoli anheddau gwag, gorchmynion rheoli interim a therfynol, trwyddedu, systemau graddio iechyd a diogelwch tai, cartrefi mewn parciau a safleoedd sipsiwn a theithwyr awdurdodau lleol. Mae'r tabl isod yn cyflwyno data ar bob apêl a gafwyd o ran awdurdodaeth y tribiwnlysoedd.

Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl (TEP)

Apeliadau a Gofrestrwyd yn ôl Math	2014-2015
Gorchmynion Rheoli	
Gorchmynion Rheoli	0
Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag	0
Gorchymyn Ad-dalu Rhent Awdurdodau Lleol	2
Eithriad Dros Dro	0
Gorboblogi	0
Penderfyniadau ar Dai Amlfeddiannaeth	0
Penderfyniadau Trwyddedu	1
Hysbysiad Gwella Sbwriel	1
Hysbysiadau gwella	7
Awdurdodau Lleol i Adennill Treuliau	0

Cartrefi mewn Parciau	
Cartrefi mewn Parciau Adran 2(2)	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 8(1)(e)	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 10(1)(a)	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 4	1
Cartrefi mewn Parciau Adran 5a(2)(a)	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 18(1)(a)(iii)	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 28(1)(h)	1
Cartrefi mewn Parciau Adran 1(6)	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 10(2)	0
Cartrefi mewn Parciau Adran – Adolygu Ffioedd Lleiniau (16(b))	3
Cartrefi mewn Parciau Adran 4,5 neu 5a(2)(b)	0
Cartrefi mewn Parciau Adran – Telerau Datganedig/Ymhlyg	0
Ildio ffioedd	0
Cyfanswm	16

2.3 Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd yn 2014-2015 yn ôl Canlyniad

Mae achos sydd wedi'i gwblhau yn gais sydd wedi'i gwblhau naill ai oherwydd:

- bod yr ymgeisydd wedi tynnu'n ôl; neu
- cynhaliwyd gwrandawiad lle bo'r tribiwnlys wedi gwneud penderfyniad ynghylch y cais.



2.4 Nifer y Ceisiadau yn 2014-2015 yn ôl Math a Chanlyniad

Math	Cariwyd Drosodd	Caniatawyd	Canlyniadau Cymysg	Gwrthodwyd	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Anghydfodau ynghylch lesddaliadau						
Clara Adran 168(4)	0	2	0	4	0	6
Clara Atodlen 11	0	2	0	0	1	3
Clara Adran 1	2	5	0	0	2	9
L&T Adran 20C	0	0	0	0	1	1
L&T Rhan IV	0	0	0	1	1	2
L&T Adran 24	0	0	0	0	1	1
Taliadau Gwasanaeth Lesddaliadol						
L&T Adran 20ZA	1	2	0	0	1	4
L&T Adran 27A	7	5	11	3	6	32
Rhyddfreinio Lesddaliadau						
LR Adran 21(1)(ba)	0	0	0	0	0	0
LR Adran 21(1)(a)	1	0	1	0	2	4
LRH&UD adnewyddu lesddaliadau	3	0	2	0	12	17
LRH&UD Landlord Coll	1	2	2	1	0	6
LRH&UD costau	1	0	1	0	0	2
LRH&UD Rhyddfreinio	2	0	3	1	2	8
Cymdeithasau Tenantiaid						
L&T Adran 29	0	0	0	0	0	0
Arall						
LRH Adran 21	0	0	0	0	0	0
LVT ildio ffioedd	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	18	18	20	10	29	95

Pwyllgorau Asesu Rhenti

Math	Cariwyd Drosodd 2015/16	Caniatawyd	Canlyniadau Cymysg	Gwrthodwyd	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Deddf Tai Adran 13(4)	3	3	3	5	3	17
Deddf Tai Adran 22(1)	1	0	0	0	0	1
Deddf Tai Adran 6(3)	0	0	0	0	0	0
Rhenti Teg	0	8	4	13	14	39
Cyfanswm	4	11	7	18	17	57

Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl

Type	Cariwyd Drosodd 2015/16	Caniatawyd	Canlyniadau Cymysg	Gwrthodwyd	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Gorchmynion Rheoli						
Gorchmynion Rheoli	0	0	0	0	0	0
Anheddau Gwag	0	0	0	0	0	0
Gorchymyn Ad-dalu Rhent Awdurdodau Lleol	0	0	0	0	2	2
Eithriad Dros Dro	0	0	0	1	0	1
Gorboblogi	0	0	0	0	0	0
Penderfyniadau ar Dai Amlfeddiannaeth	0	0	0	0	0	0
Penderfyniadau Trwyddedu	0	0	0	1	0	1
Hysbysiad Gwella Sbwriel	0	0	0	0	1	1
Hysbysiadau Gwella	1	0	2	2	5	10
Adennill Treuliau – Awdurdod Lleol	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau						
Cartrefi mewn Parciau Adran 2(2)”	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 8(1)(e)	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 10(1)(a)	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 4	0	0	0	0	1	1
Cartrefi mewn Parciau Adran 5a(2)(a)	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 18(1)(a)(iii)	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 28(1)(h)	0	0	0	0	1	1
Cartrefi mewn Parciau Adran 1(6)	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau Adran 10(2)	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau Adran – Adolygu Ffioedd Lleiniau (16(b))	1	0	0	0	2	3

Cartrefi mewn Parciau Adran 4,5 neu 5a(2)(b)	0	0	0	0	0	0
Cartrefi mewn Parciau – Telerau Datganedig/Ymhlyg	0	0	0	0	0	0
Ildio ffioedd	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	2	0	2	4	12	20

Bydd y tribiwnlys yn cario drosodd 24 o geisiadau a gofrestrwyd yn 2014-2015.

Gwrandawiadau

Yn ystod 2014-2015 arweiniodd 90 cais at Wrandawiad (a oedd yn cynnwys ymweliad â safleoedd):

Math	Hyd (mewn dyddiau)
Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau	48 o ddiwrnodau
Gwrandawiad Pwyllgorau Asesu Rhenti	36 o ddiwrnodau Gwrandawiad
Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl	6 diwrnod Gwrandawiad

Bu hefyd 2 gynhadledd ffôn a gynhaliwyd ar gyfer Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau.

Bu 35 o gynadleddau papur ac o'r rhain roedd 29 ar gyfer y Pwyllgor Asesu Rhenti, ac roedd 6 ar gyfer y Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau.

Cynhaliwyd 15 Adolygiad Cyn Treial hefyd ar gyfer Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau. Mae Adolygiad Cyn Treial yn gyfarfod rhwng yr holl bartïon i drafod y camau gweithredu pellach sy'n ofynnol ar gyfer eu ceisiadau.

Adolygiadau ac apeliadau a ddygwyd ymlaen

Gellir gwneud cais am adolygiad o benderfyniad Tribiwnlys gan bartïon am resymau cyfyngedig.

Gall partïon Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlys Eiddo Preswyl wneud cais i'r Tribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt o'r farn bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith. Gall Pwyllgorau Asesu Rhenti wneud cais yn uniongyrchol i'r Uwch Dribiwnlys.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, gwnaethpwyd 2 gais.

Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro a yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg pryd y daw'r cais i law hyd at y gwrandawiad neu ei gwblhau.

Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd sy'n deillio o arolygon boddhad cwsmeriaid a gynhelir yn rheolaidd.

Cyflymder ein gwasanaeth

Targed: cofrestru 95% o'r ceisiadau neu fynd i'r afael ag ymholiadau cyn cofrestru o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y Ffurflen gais	→	Cyflawnwyd y targed mewn 95% o'r achosion
Targed: delio â 95% o'r holl ohebiaeth o fewn 10 diwrnod gwaith i'w derbyn	→	Cyflawnwyd y targed mewn 100% o'r achosion
Targed: rhestru 95% o'r gwrandawiadau o fewn 40 diwrnod gwaith i gofrestru	→	Cyflawnwyd y targed mewn 95% o'r achosion
Targed: cyhoeddi 100% o'r hysbysiadau gwrandawiad o fewn 20 diwrnod gwaith	→	Cyflawnwyd y targed mewn 100% o'r achosion
Targed: cyhoeddi 95% o'r penderfyniadau o fewn 30 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad	→	Cyflawnwyd y targed mewn 90% o'r achosion
Targed: cyflawni 95% o'r ceisiadau o fewn 18 mis	→	Cyflawnwyd y targed mewn 100% o'r achosion

Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys ddim cwynion ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon, ein:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn gwneud ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau cwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn.

Mae canlyniadau'r arolwg boddhad cwsmeriaid a sefydlwyd yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid ac mae'n rhoi cipolwg gwerthfawr i ni o'r hyn mae'r Tribiwnlys yn ei wneud yn dda, yn ogystal ag amlygu'r meysydd hynny lle mae angen i'r Tribiwnlys wella.

Dosbarthodd y tribiwnlys 145 o ffurflenni arolwg boddhad cwsmeriaid ond ni ddychwelwyd unrhyw ffurflenni wedi'u cwblhau yn ystod 2014-2015.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon, ein:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2014-2015

Mae'n bwysig bod y tribiwnlys yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y tribiwnlys yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau Busnes 2015-2016

- Parhau i sicrhau bod llywydd y tribiwnlys yn ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar waith TEP Cymru.
- Parhau i fonitro a diweddaru Gwefan TEP Cymru.
- Aelodau newydd o'r panel i gwblhau hyfforddiant sefydlu gan arsylwi gwrandawiadau cyn eistedd ar y panel.
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth ar arolygon boddhad cwsmeriaid.
- Trefnu cynhadledd hyfforddiant flynyddol i aelodau o'r tribiwnlys, gan nodi ac ymateb i anghenion hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant ar ddeddfwriaeth newydd.
- Nodi a chynllunio hyfforddiant i aelodau ar ddeddfwriaeth newydd.
- Nodi a chynllunio trefniadau arfarnu aelodau o'r tribiwnlys.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer 2014-2015

Gwariant ar gyfer 2014-2015

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r Aelodau ar gyfer achosion y tribiwnlys	£115,379
Digwyddiadau'r Tribiwnlys (costau gwrandawiadau)	£1,460
Cynhadledd Flynyddol, Hyfforddiant Sefydlu ac Arfarniadau	£33,335
Cyfanswm	£150,174

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf